

Asesiad Strwythuredig 2024 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2024

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4579A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Am yr adroddiad hwn	4
Canfyddiadau allweddol	5
Argymhellion	6
Adroddiad manwl	
Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlynïad y Bwrdd	8
Systemau sicrwydd corfforaethol	15
Dull cynllunio corfforaethol	19
Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol	23
Atodiadau	
Atodiad 1—Dulliau archwilio	28
Atodiad 2—Y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol	30
Atodiad 3—Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio	37

Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau o waith asesu strwythuredig 2024 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Ymgwymerir â'n hadolygiad o ddull corfforaethol y Bwrdd Iechyd o osod amcanion llesiant newydd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig 2024 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Hefyd, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth pandemig COVID-19. Felly, yn fwy nag erioed, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu rhoi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.
- 3 Bu pwyslais allweddol y gwaith ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar yr hyn a ganlyn:
 - Tryloywder, cydlyniant, ac effeithiolrwydd y Bwrdd
 - Systemau sicrwydd corfforaethol
 - Dull cynllunio corfforaethol, a
 - Dull corfforaethol o reoli ariannol.Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r gwaith hwn.
- 4 Mae ein gwaith wedi ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, a ddatblygwyd ac a fireiniwyd dros nifer o flynyddoedd. Mae hefyd wedi ei lywio gan yr hyn a ganlyn:
 - Gorchmynion Rheolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo Pwerau
 - Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Model
 - Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru
 - Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad)
 - Canllawiau arferion da perthnasol eraill

Cynhaliwyd ein gwaith rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024. Crynhoir y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**. Cynhaliwyd ein gwaith yn unol â'r safonau archwilio a bennwyd gan y Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf.

- 5 Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd y Bwrdd lechyd wrth fynd i'r afael ag argymhellion sydd angen sylw a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

Canfyddiadau allweddol

- 6 **Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau llywodraethu y Bwrdd lechyd yn gweithredu'n effeithiol at ei gilydd, ond bod cyfleoedd o hyd i'w cryfhau ymhellach. Cyflawnodd y Bwrdd lechyd y dasg o fantoli'r cyfrifon yn 2023–24. Fodd bynnag, mae ei bwyslais ar gyflawni hyn yn 2024–25 yn peri rhai risgiau posibl i gyflawni amcanion strategol ac atebion sydd wedi eu cynllunio i gyflawni cynaliadwyedd ariannol tymor hwy.**
- Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd lechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Canfuom fod gan **y Bwrdd lechyd Fwrdd sefydlog a chydlynol sy'n cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw at ei gilydd. Bydd cyflwyniad strwythur pwyllgor newydd yn gynnar yn 2025 yn rhoi cyfle i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach.**
 - Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Canfuom fod **systemau sicrwydd y Bwrdd lechyd yn gweithredu'n effeithiol at ei gilydd, ond bod cyfleoedd o hyd i gryfhau trefniadau ymhellach ac i gymryd camau brys i fynd i'r afael â chamau gwella ac argymhellion hwyr.**
 - Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni. Canfuom **er bod gan y Bwrdd lechyd ddull effeithiol o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol, ei fod yn profi heriau wrth ddatblygu elfennau allweddol o'i strategaeth hirdymor. Hefyd, mae angen iddo gryfhau ei ddull o fonitro ac adrodd y broses o gyflawni strategaeth a'i heffaith.**
 - Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Canfuom fod **y trefniadau cynllunio, rheoli, monitro ac adrodd ariannol effeithiol at ei gilydd, ond bod pwyslais y sefydliad ar fynd i'r afael â'i heriau ariannol uniongyrchol yn cyflwyno risgiau i ddarparu atebion tymor hwy i gyflawni cynaliadwyedd ariannol.**

Argymhellion

7 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn **Arddangosyn 1**. Crynhoir ymateb y Bwrdd lechyd i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

Arddangosyn 1: Argymhellion 2024

Argymhellion	
A1	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro, adolygu a diweddarau polisïau y Bwrdd lechyd ac adrodd ar y cynnydd yn rheolaidd i Bwyllgor perthnasol y Bwrdd. (Paragraff 25)
A2	Dylai'r Bwrdd lechyd gyflwyno trefniadau ar gyfer nodi a monitro camau sy'n deillio o'i straeon gwrandao a dysgu. (Paragraff 36)
A3	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd drwy adrodd yn glir am effaith y camau y mae'r Bwrdd lechyd yn eu cymryd i liniaru ei risgiau strategol. (Paragraff 48)
A4	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei Ddangosfwrdd Perfformiad Integredig drwy fynegi'n glir a yw camau i wella tanberfformiad yn cyflawni eu heffaith arfaethedig. (Paragraff 55)
A5	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei adroddiadau ar y Ddyletswydd Ansawdd a Gonestrwydd drwy: A5.1 sicrhau bod adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn gliriach ynghylch yr heriau a brofir wrth ymgorffori'r gofynion A5.2 yn cynnwys cerrig milltir a thargedau priodol i helpu'r darlennydd i ddeall pryd y mae'n bwriadu cyflawni blaenoriaethau. (Paragraff 63)
A6	Dylai'r Bwrdd lechyd: A6.1 sicrhau ei fod yn cwblhau ei waith yn sydyn er mwyn cryfhau'r traciwr argymhellion archwilio A6.2 cryfhau perchnogaeth ac atebolrwydd am gyflawni argymhellion archwilio. (Paragraff 67)

Argymhellion

A7 Dylai'r Bwrdd lechyd nodi sut mae pob amcan llesiant unigol yn alinio ag amcanion llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant ei bartneriaid. **(Paragraff 78)**

A8 Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu ac adrodd am fesurau canlyniadau y boblogaeth er mwyn dangos effaith ei broses cyflawni strategaeth. **(Paragraff 84)**

A9 Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau strategaeth gorfforaethol y Bwrdd a'r pwyllgorau a'r broses o adrodd am gynllun drwy fynegi'n glir pan fo'r hyn a gyflawnir oddi ar y trywydd iawn, lliniaru camau gweithredu, a diwygio amserlenni cyflawni. **(Paragraff 85)**

A10 Dylai'r Bwrdd lechyd:

A10.1 monitro a rheoli unrhyw risgiau uniongyrchol i ansawdd a pherfformiad a allai godi o ganlyniad i fuddsoddiad cyfyngedig neu ddim buddsoddiad mewn gwasanaethau wrth iddo geisio cyflawni cydbwysedd ariannol yn y tymor byr

A10.2 datblygu cynllun ariannol hirdymor, y tu hwnt i'w Gynllun 2024–27 Tymor Canolig Integredig 2024–27, sydd wedi ei alinio â'i strategaeth sefydliadol er mwyn cyflawni cynaliadwyedd ariannol. **(Paragraff 95)**

Adroddiad manwl

Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlynïad y Bwrdd

- 8 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd lechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.
- 9 Canfuom fod gan y **Bwrdd lechyd Fwrdd sefydlog a chydlynol sy'n cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw at ei gilydd. Bydd cyflwyniad strwythur pwyllgor newydd yn gynnwys yn 2025 yn rhoi cyfle i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach.**

Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

- 10 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes y bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
 - Cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau sy'n hygyrch i'r cyhoedd
 - Papurau Bwrdd a phwyllgorau sydd ar gael i'r cyhoedd cyn y cyfarfodydd
 - Busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau, a'r broses o wneud penderfyniadau yn cael eu cynnal yn dryloyw.
- 11 Canfuom **er bod y Bwrdd lechyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i dryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau, fod ganddo waith pellach i'w wneud o hyd i fynd i'r afael yn llawn â'n hargymhellion archwilio blaenorol yn y maes hwn.**
- 12 At ei gilydd, mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae'n gweithredu cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor rhithwir ac yn y cnawd. Er nad yw'n ffrydio cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn fwy mwyach, mae recordiadau o gyfarfodydd ar gael ar ei wefan a'i sianel YouTube cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y cyfarfod. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hwn estyn i gyfarfodydd pwyllgorau.
- 13 Mae cyfarfodydd y Bwrdd Cyhoeddus yn cael eu nodi'n effeithiol ar wefan a phlatformau cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd lechyd gyda chanllawiau clir ar sut y gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am gael bod yn bresennol yn y cnawd os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae hefyd yn ymdrechu i ddarparu cyfieithu Cymraeg ar y pryd ac laith Arwyddion Prydain ar gais. (Gweler **Atodiad 2 - 2023 Argymhelliad 1**).
- 14 Nod y Bwrdd lechyd yw cyhoeddi'r agenda a'r papurau ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau ar ei wefan wythnos cyn cyfarfodydd. Fodd bynnag, pwysleisia diweddariad Torri Rheolau Sefydlog i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Awst 2024 rai achosion o fethu â bodloni amserlenni (gweler **Atodiad 2 - 2022 Argymhelliad 1b**). Nid yw'r Bwrdd lechyd yn cyhoeddi papurau cyfarfodydd preifat y Bwrdd a'r

Pwyllgorau, y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth na Grwpiau Cynghori y Bwrdd¹ ar ei wefan oherwydd natur sensitif yr wybodaeth a drafodir.

- 15 Mae'r Bwrdd lechyd wedi cynnwys rhai fideos straeon staff a chleifion a gyflwynwyd yn ystod ei gyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau ar ei wefan. Fodd bynnag, nid yw'r trefniad hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson. Er enghraifft, ni lanlwythwyd fideos o'r stori glaf a gyflwynwyd ym Mhwyllgor Ansawdd a Diogelwch (Holi ac Ateb) y Bwrdd ym mis Medi 2024. Fodd bynnag, roedd y papurau yn cynnwys sleidiau cyflwyno a oedd yn cyd-fynd â'r eitem a gyflwynwyd yn y Bwrdd. (Gweler **Atodiad 2 - 2023 Argymhelliad 2**)
- 16 Mae'r Bwrdd yn parhau i wneud defnydd priodol o sesiynau preifat, gan sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac yn eu cadw ar gyfer materion cyfrinachol a sensitif yn unig. Mae agendâu cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cynnwys eitem ar faterion i'w trafod yn breifat. (Gweler **Atodiad 2 - 2022 Argymhelliad 1a**)
- 17 Mae cofnodion drafft cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgor yn parhau i gael eu cynhyrchu yn sydyn; fodd bynnag, nid ydynt ar gael i'r cyhoedd nes bod papurau y cyfarfod dilynol yn cael eu cyhoeddi. Gan nad yw cyfarfodydd pwyllgorau yn cael eu ffrydio'n fyw na'u recordio at ddefnydd cyhoeddus, mae angen i'r Bwrdd lechyd roi trefniadau ar waith i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar gofnodion cyfarfodydd pwyllgorau yn fwy amserol (gweler **Atodiad 2 - 2023 Argymhelliad 3**). Mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cofnodion pwyllgor wedi eu cadarnhau yn cael eu lanlwytho i'w wefan yn brydlon. (Gweler **Atodiad 2 - 2023 Argymhelliad 4**)
- 18 Canfu ein harsylwadau o gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau eu bod yn cefnogi didwylledd a thryloywder da ymhlith cyfranogwyr, yn enwedig mewn cysylltiad â'r heriau sy'n wynebu'r sefydliad.

Trefniadau i gefnogi ymddygiad busnes y Bwrdd

- 19 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ffurfiol, cyfoes ac sydd ar gael i'r cyhoedd sydd ar waith, sy'n nodi atebolrwydd yn glir
 - rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ffurfiol, cyfoes ac sydd ar gael i'r cyhoedd sydd ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth
 - polisiau a gweithdrefnau ffurfiol, cyfoes ac sydd ar gael i'r cyhoedd sydd ar waith er mwyn hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

¹ Y Grŵp Cynghori Clinigol, y Fforwm Partneriaeth Lleol, a Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yw Grwpiau Cynghori Bwrdd y Bwrdd lechyd.

- 20 Canfuom fod **gan y Bwrdd lechyd drefniadau da at ei gilydd i gefnogi'r broses o gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol, ond fel y nodwyd gennym y llynedd, mae angen iddo gryfhau ei drefniadau rheoli polisïau o hyd.**
- 21 Mae Rheolau Sefydlog, Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau, a Chyfarwyddiadau Cyllid Sefydlog y Bwrdd lechyd yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac mae diwygiadau neu'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd yn rheolaidd.
- 22 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnal goruchwyliaeth briodol o'r gydymffurfiaeth â'r Cynllun Cadw a Dirprwyo mewn cysylltiad â materion caffael, datgan buddiannau, rheolau sefydlog, a Chyfarwyddiadau Cyllid Sefydlog. Mae diweddariadau Caffael a Chynllun Dirprwyo mis Awst a mis Hydref 2024 i'r pwyllgor yn pwysleisio nifer uchel o anfonebau sy'n cael eu hatal (oherwydd diffyg gorchymyn prynu) o'u cymharu â chyfartaledd y Bwrdd lechyd ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn wedi ysgogi staff y Bwrdd lechyd i gyfathrebu a diweddariad i'r Polisi Gorchymyn Prynu.
- 23 Cymerir Datganiadau o Fuddiannau ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor. Mae trefniadau priodol hefyd ar gyfer datgan, ymdrin, a chofnodi ac adrodd datganiadau o fuddiannau gan aelodau y Bwrdd a staff sydd mewn swyddi Band 8d ac uwch.
- 24 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i gynnwys polisïau a gweithdrefnau allweddol ar ei wefan. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith Rheoli Digwyddiadau, y Polisi Ymdrin â Phryderon, Polisi Codi Pryderon, a'r Polisi Amgylcheddol yn parhau i fod wedi dyddio (gweler **Atodiad 2 - 2023 Argymhelliad 5**).
- 25 Mae angen cryfhau o hyd y trefniadau ar gyfer monitro, olrhain ac adolygu polisïau ehangach y Bwrdd lechyd. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd lechyd yn archwilio sut y gall gyflawni hyn gan ddefnyddio systemau Audit Management and Tracking (AMaT)² neu SharePoint. Yn sgil hynny, cyfyngedig sy'r sicrwydd a ddarperir i'r Pwyllgor perthnasol ar reoli polisïau. (**Argymhelliad 1, 2024**)

Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

- 26 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- strwythur pwyllgor priodol, integredig ac sy'n gweithredu'n dda sydd ar waith, sy'n alinio â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol

² Offeryn rheoli ac olrhain archwiliadau, sy'n defnyddio dangosfyrddau i roi deallusrwydd, ac sy'n galluogi staff i ddiweddarau'r cynnydd mewn amser real gan leihau'r baich ar dimau llywodraethu gan ei fod yn awtomeiddio llawer o'r prosesau, megis gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd, yw AMaT.

- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau, sy'n cwmpasu pob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau sy'n cael eu cadeirio'n dda, sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau'n cadw at ymddygiad y cyfarfodydd ac yn darparu cydbwysedd da o ran craffu, cefnogaeth a her
- pwyllgorau sy'n cael sicrwydd gofynnol ac yn gweithredu arno, ac sy'n rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd
- papurau Bwrdd a phwyllgorau clir ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol o wybodaeth sydd ei hangen/yn briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, gwaith craffu a sicrwydd.

27 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n effeithiol at ei gilydd, gyda newidiadau arfaethedig i strwythur y pwyllgor sy'n canolbwyntio ar gryfhau'r oruchwyliaeth a roddir i faterion strategol ac adeiladu ar drefniadau da cyfredol.**

28 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgor yn parhau i weithredu'n effeithiol at ei gilydd. Canfuom yr hyn a ganlyn:

- cylch gorchwyl cyfredol, cylchoedd busnes blynyddol a chynlluniau gwaith ar gyfer y dyfodol sydd ar waith ar gyfer y Bwrdd a'r pwyllgorau sy'n cwmpasu ehangder busnes y Bwrdd lechyd yn fras
- bod cadeiryddion pwyllgorau yn cymryd rhan weithredol yn y broses o osod agenda cyfarfodydd, gyda thystiolaeth o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei ddefnyddio i lunio busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau (gweler **paragraff 49**)
- defnydd priodol o'r agenda cydsyniad ar gyfer busnes arferol
- cyfarfodydd sy'n cael eu cadeirio'n dda, gan alluogi cyfraniadau gan bob aelod ar faterion allweddol
- arferion cyfarfod da yn cael eu harsylwi, gyda gwaith craffu a her briodol. Fodd bynnag, roedd nifer bach o achosion lle'r oedd trafodaethau yn ymddangos fel pe baent yn gwyro ychydig yn ormod tuag at fanylion gweithredol
- dull sefydledig ac effeithiol o gyfeirio materion rhwng pwyllgorau a herio cadernid y sicrwydd a ddarperir (gweler **Atodiad 2 - 2022 Argymhellion 10c**)
- dull effeithiol o uwchgyfeirio materion at y Bwrdd gan nodi camau gweithredu mewn ymateb i risgiau.

29 Daeth y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yn gyfrifol am oruchwyllo ystad y Bwrdd lechyd y llynedd. Mae ein gwaith eleni yn dangos bod y pwyllgor wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad Ystadau yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024. Fodd bynnag, mae'r digwyddiad difrifol diweddar yn Ysbyty Tywysoges

Cymru³, er ei fod yn annisgwyl, yn atgyfnerthu pwysigrwydd strategol goruchwyliaeth effeithiol y Bwrdd dros ystad y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â phwysigrwydd datblygu strategaeth Ystadau i gyd-fynd â'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt. (Gweler **Atodiad 2 - 2022 Argymhelliad 10a**)

- 30 At ei gilydd, mae ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gwella. Mae ansawdd y Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn sicrhau pob papur cyn ei gyhoeddi. Hefyd, dylai'r hyfforddiant ysgrifennu adroddiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar wella cysondeb ac ansawdd yr adroddiadau ymhellach. Fodd bynnag, er bod papurau yn glir at ei gilydd ac wedi eu hysgrifennu'n dda, gallant fod yn rhy hir a manwl weithiau. Bydd trefniadau newydd i bwyllgorau (gweler **paragraff 32**) yn canolbwyntio'n fwy ar faterion strategol, hefyd, gallai helpu awduron yr adroddiadau i ganolbwyntio ar faterion allweddol, gan leihau nifer cyffredinol y papurau cyfarfod.
- 31 Mae adroddiadau clawr yn dilyn fformat safonol ac mae asesiadau effaith yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gan gwmpasu ystod eang o feini prawf⁴. Mae adroddiadau clawr ar gyfer cyflwyniadau yn parhau i fod mewn fformat gwahanol ac nid ydynt yn cipio'r risgiau a'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â'r cyflwyniadau (gweler **Atodiad 2—2022 Argymhelliad 1d**).
- 32 Ym mis Medi 2024, cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau canlynol i drefniadau llywodraethu a rheoli y Bwrdd Iechyd:
- bydd nifer y pwyllgorau ffurfiol yn cael ei ostwng o naw i saith⁵
 - bydd amllder cyfarfod y pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn newid o bob deufis i chwarterol
 - cyflwyno Pwyllgor Datblygu Strategol newydd i oruchwyllo cynllunio strategol a chyflwyniad rhaglenni
 - cyflwyno Pwyllgor Cyflawni Gweithredol newydd i oruchwyllo cynllunio gweithredol, perfformiad, cyllid, llywodraethu digidol a gwybodaeth
 - cyflwyno Bwrdd Rheoli Gweithredol newydd i oruchwyllo swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol y Bwrdd Iechyd o ddydd i ddydd a chynnal pwyslais a'r broses o oruchwyllo strategaeth, cynlluniau a rhaglenni hirdymor.
- 33 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd y trefniadau newydd yn sicrhau rheolaeth fwy effeithlon ac effeithiol o fusnes y Bwrdd a'r pwyllgorau ac yn darparu mwy o

³ Yn ystod mis Hydref 2024, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ddigwyddiad difrifol yn safle ei Ysbyty Tywysoges Cymru gan ddatgelu dirywiad difrifol i do yr adeilad a fydd yn gofyn am raglen amnewid sylweddol.

⁴ Mae meini prawf yr Asesiad o'r Effaith yn cynnwys amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, meysydd a galluogwyr ansawdd, cynaliadwyedd amgylcheddol, cydraddoldeb a'r Gymraeg.

⁵ Bydd y Pwyllgorau Pobl a Diwylliant, Cynllunio, Perfformiad a Chyllid, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau a Digidol a Data yn cael eu tynnu o'r strwythur a bydd eu cyfrifoldebau yn cael eu trosglwyddo i bwyllgorau eraill.

oruchwyliaeth strategol o'r sefydliad. Mae aelodau y Bwrdd yn cefnogi'r trefniadau newydd, fodd bynnag, mae risgiau posibl ynghylch llwyth gwaith pwyllgor a llifoedd sicrwydd o ystyried amlder arfaethedig rhai cyfarfodydd pwyllgor. Felly, bydd yn hanfodol gosod agenda o dan y trefniadau newydd er mwyn sicrhau bod y Bwrdd a'r pwyllgorau yn canolbwyntio'n strategol ac yn ceisio'r lefel gywir o sicrwydd. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu adolygu'n ffurfiol strwythur y pwyllgor newydd pan fydd y trefniadau wedi eu hymgorffori. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi gwelliant parhaus, dylai aelodau y Bwrdd a'r pwyllgorau fyfrio'n rheolaidd ar effeithiolrwydd y trefniadau newydd.

Ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff

- 34 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- y Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i wrando ar amrywiaeth o gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth, y cyhoedd, a'r staff.
- 35 Canfuom fod **y Bwrdd lechyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i wrando ar gleifion, defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff, ond bod cyfleoedd i nodi a monitro'r camau gweithredu sy'n deillio o wrando ar straeon a dysgu straeon yn well.**
- 36 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i ymgysylltu'n effeithiol â staff a chleifion. Mae'r Bwrdd, y Pwyllgor Holi ac Ateb, a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn cael stori gwranddo a dysgu a rennir⁶ a chyflwyniad sbotolau⁷. Mae ein harsylwadau wedi canfod cydbwysedd o ran straeon cadarnhaol a negyddol. Mae'r Bwrdd hefyd yn defnyddio straeon i ddilyn penderfyniadau buddsoddi. Er enghraifft, ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Bwrdd achos busnes i weithredu llawdriniaeth â chymorth robotig. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024, canolbwyntiodd yr eitem gwranddo a dysgu wedyn ar ganlyniadau cadarnhaol y penderfyniad hwn, gan gynnwys safbwyntiau staff a chleifion. Fodd bynnag, mae lle i gyflwyno trefniadau mwy systematig ar gyfer nodi a monitro camau sy'n deillio o straeon gwranddo a dysgu (**Argymhelliad 2, 2024**). Yn sgil ailstrwythuro'r pwyllgor (gweler **paragraff 32**), bydd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod straeon staff yn parhau i hysbysu aelodau y Bwrdd o brofiadau staff.
- 37 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau da o hyd i gefnogi teithiau cerdded y Bwrdd, gan ganiatáu i Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol ymgysylltu'n uniongyrchol â chleifion ac i'r staff driongli gwybodaeth a sicrwydd perfformiad gan reolwyr. Mae gwybodaeth ddiweddaraf arferol y Pwyllgor Holi ac Ateb yn rhoi trosolwg o arferion da, meysydd a materion pryder a chamau y cytunwyd arnynt ar

⁶ Straeon cleifion a staff yn disgrifio eu profiadau.

⁷ Cyflwyniad archwiliad dwfn ar wasanaeth penodol.

gyfer yr holl ymweliadau a gwblhawyd. Mae Grwpiau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion Grŵp Gofal yn monitro'r cynnydd ar y camau hyn. Disgwylir i Sesiwn Datblygu'r Bwrdd y gwnaed trefniadau i'w chynnal ym mis Rhagfyr 2024 ystyried adolygiad ar effeithiolrwydd ac effaith teithiau cerdded Aelodau Annibynnol.

Cydlyniant y Bwrdd a'i ymrwymiad i welliant parhaus

- 38 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol, ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda fframwaith o uwch-arweinwyr sydd â'r capasiti, y sgiliau a'r profiad priodol
 - y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus
 - rhaglen datblygu, cefnogaeth a hyfforddiant Bwrdd perthnasol sydd ar waith.
- 39 Canfuom fod **y Bwrdd yn parhau i fod yn gydlynol ac yn ymrwymedig i welliant parhaus.**
- 40 Mae gan y Bwrdd lechyd Fwrdd cydlynol a sefydlog. Mae holl aelodau y Tîm Gweithredol mewn swyddi parhaol ac mae'r Bwrdd lechyd wedi rheoli newidiadau ymhlith ei fframwaith Aelodau Annibynnol yn dda. Llwyddodd i lenwi pedair swydd Aelod Annibynnol gwag⁸ yn ystod y flwyddyn, ac mae un swydd wag ar ôl (Busnes Corfforaethol). Bydd newid pellach yn 2025 pan fydd yr Aelod Annibynnol (Digidol) yn cyrraedd diwedd ei dymor olaf.
- 41 Mae gan aelodau y Bwrdd gymysgedd eang o wybodaeth a phrofiad. Fodd bynnag, nododd adolygiad sgiliau diweddar fylchau ynghylch contractio masnachol, caffael, ystadau ac eiddo. Hefyd, mae'r Bwrdd wedi colli un Aelod Annibynnol sy'n siarad Cymraeg. Mae'r Bwrdd yn defnyddio'r wybodaeth hon ochr yn ochr â'i broffil amrywiaeth⁹ i lunio'r swyddogaeth ac i lywio'r broses o recriwtio ar gyfer y swydd wag Aelod Annibynnol a nodir uchod.
- 42 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i adolygu eu heffeithiolrwydd yn flynyddol. Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd y Bwrdd lechyd adolygiad ehangach o fusnes a strwythurau y Bwrdd (gweler **paragraff 32**), y defnydd o sesiynau datblygu a briffio y Bwrdd (gweler **paragraff 43**), a'r dull o gynllunio sesiynau agenda. Yn ystod sesiwn datblygu'r Bwrdd a gynhaliwyd ym Medi 2024, bu'r cyfranogwyr yn myfyrio ar y ddysg o'r gwaith hwn ac yn nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt. Mae'r Tîm

⁸ Penododd y Bwrdd lechyd Is-gadeirydd, ac Aelodau Annibynnol ar gyfer Cymuned, Undebau Llafur a Chyfreithiol.

⁹ Casgliad o nodau a chmau gweithredu i sicrhau bod y Bwrdd yn cynnwys grŵp amrywiol o bobl yw proffil amrywiaeth y Bwrdd.

Llywodraethu Corfforaethol yn datblygu camau gweithredu yn rhan o'i gynllun gwaith.

- 43 Mae rhaglen datblygu a briffio y Bwrdd yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd pwnc, megis modelau gofal sylfaenol yn y dyfodol, ymgysylltu â'r gymuned, ymchwil a datblygu, a thrawsnewid digidol. Fe'u defnyddir hefyd i ystyried ac i lywio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Mae'r Bwrdd a'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn adolygu'r rhaglen ar gyfer 2025 er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi pwyslais cliriach ar eitemau strategol allweddol.

Systemau sicrwydd corfforaethol

- 44 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.
- 45 Canfuom fod **systemau sicrwydd y Bwrdd lechyd yn gweithredu'n effeithiol at ei gilydd, ond bod cyfleoedd o hyd i gryfhau trefniadau ymhellach ac i gymryd camau brys i fynd i'r afael â champau gwella ac argymhellion hwyr.**

Dull corfforaethol o oruchwyllo risgiau strategol a chorfforaethol

- 46 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwyllo a chraffu ar risgiau strategol a chorfforaethol ac roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ac ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad
 - y Bwrdd yn mynd ati adolygu, diweddar, defnyddio a derbyn cyfrifoldeb am Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn goruchwyllo a chraffu ar risgiau strategol, gan fynd i'r afael â nhw
 - fframwaith rheoli risgiau priodol a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan gyfrifoldebau, swyddogaethau, gweithdrefnau a pholisïau clir
 - y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar effeithiolrwydd y system rheoli risgiau a'r risgiau corfforaethol.
- 47 Canfuom **er bod gan y Bwrdd lechyd drefniadau corfforaethol effeithiol ar gyfer rheoli risgiau at ei gilydd, fod lle i gryfhau'r broses o adrodd ar effaith y camau a gymerir i liniaru risgiau strategol.**
- 48 Mae'r Bwrdd lechyd yn cynnal Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd manwl a chynhwysfawr y mae'r Bwrdd yn ei adolygu ym mhob cyfarfod. Y Bwrdd sy'n berchen ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ac mae'n ei ddefnyddio i oruchwyllo, rheoli a chraffu ar risgiau strategol. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn adlewyrchu nodau strategol hirdymor y Bwrdd lechyd ac yn cyfleu'r risgiau strategol y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd a'r effaith sy'n gysylltiedig ar y

sefydliad. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth briodol am sgoriau risg, rheolaethau allweddol, sicrwydd, bylchau mewn rheolaethau a sicrwydd, a chamau lliniaru. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei ddull drwy adrodd yn glir am effaith y camau y mae'n eu cymryd i liniaru ei risgiau strategol. **(Argymhelliad 3, 2024)**

- 49 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i lunio a llywio ei fusnes pwyllgor. Caiff risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a risgiau a neilltuwyd i bwyllgorau eu trafod ym mhob cyfarfod cynllunio agendâu ac fe'u hystyrir wrth lunio cylchoedd busnes y pwyllgorau. Mae adroddiadau cofrestr risg sefydliadol i'r pwyllgor yn nodi'r risgiau strategol a'r risgiau sefydliadol a neilltuwyd i bwyllgorau. Mae'r Bwrdd yn adolygu ei sefyllfa parodrwydd i dderbyn risg bob blwyddyn ac mae wedi mabwysiadu goddefgarwch risg gofalus, agored neu wrth risg¹⁰ ar draws ei feysydd risg.
- 50 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau rheoli risg effeithiol o hyd. Canfuom dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant clir
 - mynegiad clir o risgiau gweithredol y sefydliad sy'n sgorio uchaf, rheolaethau presennol, a chamau gweithredu i'w lliniaru nhw yn y gofrestr risg sefydliadol
 - pwyllgorau yn goruchwyllo risgiau sefydliadol yn effeithiol yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus a phreifat, gyda gwaith craffu, cwestiynu a thrafodaeth dda
 - adroddiadau cofrestr risg sefydliadol clir i bwyllgorau.
- 51 Er bod adolygiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o'r trefniadau rheoli risg yn rhoi sicrwydd rhesymol, nododd wendidau hefyd ynghylch cadw cofnodion Datix¹¹, cynyddu risg, derbyn hyfforddiant rheoli risg a threfniadau monitro risg. Mae'r Bwrdd lechyd yn adrodd ei fod wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion hyd yn hyn.

Dull corfforaethol o oruchwyllo'r perfformiad sefydliadol

- 52 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwyllo a chraffu ar y perfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan swyddogaethau a chyfrifoldebau clir
 - y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar y perfformiad sefydliadol.

¹⁰ Mae matrices parodrwydd i dderbyn risg y Bwrdd lechyd yn nodi sawl dull goddefgarwch risg, hy, gwrth risg, minimalaidd, gofalus, agored ac awyddus.

¹¹ System ar y we a ddefnyddir gan ddarparwyr gofal iechyd y GIG i adrodd digwyddiadau ac i reoli risg yw Datix.

- 53 Canfuom **er bod trefniadau rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd yn effeithiol at ei gilydd, fod angen iddo ddiweddarau ei fframwaith perfformiad yn llawn, sicrhau pwyslais digonol ar effaith camau gwella, a sicrhau bod canlyniadau y digwyddiad difrifol yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn cael eu rheoli'n effeithiol.**
- 54 Gwnaethom adrodd y llynedd fod angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddarau ei fframwaith rheoli perfformiad drafft. Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo a bydd angen ei gwblhau er mwyn sicrhau bod swyddogaethau, cyfrifoldebau a threfniadau adolygu ac adrodd perfformiad yn cael eu deall yn glir ar lefel gwasanaeth a rheoli (gweler **Atodiad 2—2023 Argymhelliad 6**).
- 55 Er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau priodol ar lefel y Bwrdd i oruchwyllo a chraffu ar y perfformiad sefydliadol. Adroddir perfformiad i'r Bwrdd, a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid drwy'r Dangosfwrdd Perfformiad Integredig, sy'n rhoi trosolwg manwl o berfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â mesurau cyflawni cenedlaethol, a nifer bach o fesurau lleol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb 'un dudalen' defnyddiol o fesurau cenedlaethol proffil uchaf a 'chyfeiriad teithio' y Bwrdd Iechyd. Cyflwynir perfformiad manwl yn yr adroddiad fesul Grŵp Gofal (gan gynnwys meysydd blaenoriaeth megis Gofal Heb ei Drefnu a Gofal wedi ei Gynllunio), Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol, neu feysydd pwyslais penodol ac fe'i cefnogir gan ddata, esboniad naratif, a defnydd o feincnodi data perfformiad pan fo hynny'n briodol (gweler **Atodiad 2—2022 Argymhelliad 3**). Fodd bynnag, er ei fod yn nodi camau gweithredu i wella tanberfformiad, nid yw'n mynegi'n glir a yw'r camau hynny yn cyflawni'r effaith arfaethedig (**Argymhelliad 4, 2024**).
- 56 Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn rhannu cyfrifoldeb cyfunol am berfformiad sefydliadol. Mae dull cydweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, gyda phob Cyfarwyddwr Gweithredol yn cyflwyno perfformiad eu meysydd cyfrifoldeb. Mae hyn yn cynnwys esboniadau o danberfformiad a chamau gweithredu a gymerir i ddatrys materion. Mae'r broses o graffu ar yr wybodaeth yn effeithiol at ei gilydd, ac mae Aelodau Annibynnol yn dilyn trywyddau holi gwybodus a mewnwleddol. Er gwaethaf y trefniadau hyn, mae'r digwyddiad difrifol annisgwyl diweddar yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn debygol o gael effaith nodedig a pharhaus ar y perfformiad gweithredol. Er bod y digwyddiad y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd, mae wedi ymateb gydag amrywiaeth o gamau gweithredu i liniaru ei effaith. Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i sicrhau bod y camau lliniaru hyn yn cyflawni eu heffaith arfaethedig er mwyn sicrhau adferiad yn y maes hwn.

Dull corfforaethol o oruchwyllo ansawdd a diogelwch gwasanaethau

- 57 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu ansawdd
- strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd
- y Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

- 58 Canfuom fod gan **y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol at ei gilydd ar gyfer goruchwyllo ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen iddo ymgorffori ei drefniadau llywodraethu ansawdd yn llawn ar draws y sefydliad a chryfhau ei broses o adrodd ar y Ddyletswydd Ansawdd a Gonestrwydd.**
- 59 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i wneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r meysydd dros ben a amlygir yn ein Hadolygiad Dilynol ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd 2023. Ym mis Awst 2024, gwnaethom ddilyn y gwaith hwn a chanfod bod y Bwrdd lechyd wedi mynd i'r afael â'n meysydd pryder gwreiddiol. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau bod gwelliant parhaus mewn cysylltiad â'r Cynllun Gwaith Ansawdd Blynyddol, Archwiliad Clinigol, a diwylliant ac ymddygiad sefydliadol.
- 60 Mae Strategaeth Ansawdd 2022–25 y Bwrdd lechyd a'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion, a gymeradwyodd y Bwrdd yn gynnar yn 2023, yn nodi ei weledigaeth a'i ddull strategol o ymdrin ag ansawdd a'r systemau sicrhau ansawdd a rheoli sy'n eu tanategu. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu diweddarau'r fframwaith yn ystod dechrau 2025.
- 61 Mae'r Pwyllgor Holi ac Ateb yn cynnal goruchwyliaeth dda o'r ansawdd a'r diogelwch ac mae'n ystyried fel mater o drefn wybodaeth ddiweddaraf y Grŵp Gofal, y Dangosfwrdd Diogelwch Cleifion ac Ansawdd, ac adroddiadau diweddarau'r Tîm Profiad Pobl. Mae Dangosfwrdd Perfformiad Integredig y Bwrdd hefyd yn darparu trosolwg o fesurau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys metrigau ar heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd, digwyddiadau "byth", digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol, Gweithio i Wella, a chyfraddau marwolaethau. Mae'r Bwrdd hefyd yn cael adroddiadau blynyddol ar Weithio i Wella a'r Ddyletswydd Ansawdd yn ystod y flwyddyn.
- 62 Ym mis Medi 2024, rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol ar Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Bwrdd lechyd sgôr sicrwydd rhesymol, ond nododd hefyd sawl maes lle mae angen gwelliannau pellach i gryfhau sicrwydd ansawdd a diogelwch 'o'r llawr i'r bwrdd'. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys trefniadau cyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion, strwythurau fframwaith sicrwydd Grŵp Gofal, a chynlluniau gwaith ansawdd blynyddol Grwpiau Gofal a Grwpiau Gwasanaeth Clinigol.
- 63 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i ymgorffori Deddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020. Ystyriodd y Bwrdd yr Adroddiad Dyletswydd Ansawdd cyntaf yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024. Roedd hyn yn nodi cynnydd a chynlluniau ar gyfer gweithredu ac ymgorffori'r ddyletswydd. Mae'r adroddiad yn pwysleisio cyflawniadau cadarnhaol, fodd bynnag, mae angen i'r

Bwrdd Iechyd fod yn gliriach ynghylch yr heriau y mae'n eu hwynebu wrth gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol. Hefyd, er bod yr adroddiad yn pwysleisio sawl blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, nid yw'n cynnwys cerrig milltir na thargedau i helpu'r darllenydd i ddeall pryd y mae'n bwriadu eu cyflawni. **(Argymhelliad 5, 2024)**

Dull corfforaethol o olrhain argymhellion

- 64 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar systemau at ddibenion olrhain y cynnydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac adolygu. Roeddem yn chwilio'n benodol am systemau priodol ac effeithiol ar waith er mwyn olrhain ymatebion i argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac argymhellion a chanfyddiadau adolygu eraill mewn modd amserol.
- 65 Canfuom fod **cynnydd y Bwrdd Iechyd yn cryfhau, bod ei systemau olrhain argymhellion yn parhau i fod yn araf a bod angen gweithredu brys i fynd i'r afael ag argymhellion hwyr.**
- 66 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer olrhain argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol a chamau gweithredu er mwyn gwella Arolygiaeth Iechyd Cymru, (gweler **Atodiad 2 - 2018 Argymhelliad 6**). Ar hyn o bryd, mae'n trosglwyddo i system 'AMaT', er bod hyn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Bydd y system hon yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd wella ei ddull o ddadansoddi cynnydd drwy ddarparu dangosfwrdd i lywio adroddiadau monitro argymhellion i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Holi ac Ateb. Er bod ansawdd adroddiadau monitro argymhellion/camau gweithredu pwyllgor yn gwella, mae angen cryn dipyn o ymyrraeth â llaw ar hyn o bryd i gynhyrchu'r adroddiadau.
- 67 Mae angen mwy o waith i fynd i'r afael ag argymhellion hwyr. Noda diweddariad mis Hydref 2024 i'r Pwyllgor Archwilio a Risg fod cyfanswm o 111 o argymhellion/camau gwella Archwilio Mewnol, 21 o argymhellion/camau gwella Archwilio Cymru, a 71 o argymhellion/camau gwella AGIC yn hwyr. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol a'r Tîm Gweithredol yn dechrau rhaglen waith â phwyslais i fynd i'r afael â hyn a bydd yn adrodd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg am y cynnydd yn y dyfodol. Er hynny, dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau perchnogaeth ac atebolrwydd ymhlith Cyfarwyddwyr Gweithredol er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus yn y maes hwn. **(Argymhelliad 6, 2024)**

Dull cynllunio corfforaethol

- 68 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni.
- 69 Canfuom **er bod gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol, ei fod yn profi heriau wrth ddatblygu elfennau allweddol o'i strategaeth hirdymor. Hefyd, mae angen**

iddo gryfhau ei ddull o fonitro ac adrodd y broses o gyflawni strategaeth a'i heffaith.

Dull corfforaethol o lunio strategaethau a chynlluniau

- 70 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol cadarn o lunio, goruchwyllo, a chraffu ar y broses o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd, amcanion priodol a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, sydd wedi eu gwreiddio yn iechyd y boblogaeth, ac wedi eu llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau
 - strategaeth clinigol hirdymor priodol a gymeradwywyd gan y Bwrdd sy'n tanategu'r strategaeth hirdymor
 - trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a llunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a chynlluniau corfforaethol eraill
 - y Bwrdd yn craffu'n briodol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau corfforaethol eraill cyn eu cymeradwyo.
- 71 Canfuom fod **gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol effeithiol o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau at ei gilydd a'i fod wedi cynhyrchu Cynllunio Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae ei bwyslais ar fynd i'r afael â heriau ariannol parhaus yn y tymor byr yn effeithio ar ei allu i wneud cynnydd gyda rhai amcanion strategol.**
- 72 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i weithio tuag at gyflawni ei strategaeth hirdymor—CTM 2030. Yn ystod 2023–24, gwnaeth y Bwrdd lechyd gynnydd ar lawer o feysydd allweddol y strategaeth, gan gynnwys datblygu Parc Iechyd Llantrisant¹² ac Ysbyty Cymunedol Maesteg¹³. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn llywio ac yn canolbwyntio ar gyflawni ei gyfanswm rheoli targed ar gyfer 2023–24 (gweler **paragraff 90**), ac ymddengys fod mynd i'r afael â heriau ariannol parhaus yn ystod 2024–25 yn cael rhywfaint o effaith ar gyflymder y broses o gyflawni amcanion strategol allweddol eraill, megis darparu'r adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol Aciwt. Bydd y Pwyllgor Datblygu Strategaeth newydd yn hanfodol wrth ddarparu gwaith craffu a goruchwyliaeth gadarn ar gynnydd y Bwrdd lechyd o ran datblygu a chyflawni ei gynlluniau strategol.
- 73 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol o hyd ar gyfer paratoi ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27. Mae'n defnyddio dull cyfunol o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny lle mae Grwpiau Gofal a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol yn

¹² Nod Rhaglen Parc Iechyd Llantrisant yw cyflawni canolfan diagnosteg a thriniaeth blaengar.

¹³ Mae Ysbyty Cymunedol Maesteg yn cael ei ailddatblygu yn ganolfan iechyd, gofal a llesiant.

datblygu cynlluniau gwasanaeth unigol sydd wedi eu halinio ag amcanion strategol a gofynion polisi/deddfwriaethol y sefydliad. Sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Llywio Gweithredol i ddarparu cymorth a her i bob Grŵp Gofal wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau priodol yn rhan o baratoi ei Gynllun Tymor Canolig Integredig. Roedd y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid a'r Bwrdd yn cyfrannu'n llawn at y broses o ddatblygu'r cynllun, a arweiniodd at y Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

- 74 Mae'r broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach, megis y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Strategaeth Atal a Rheoli Heintiau 2024–27, yn effeithiol. Mae strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cael eu rhannu ag Aelodau Annibynnol fel y gallant gynnig sylwadau neu er mwyn eu trafod ar y cyd yn rhan o sesiynau Datblygu y Bwrdd, neu mewn gwahanol bwyllgorau cyn derbyn cymeradwyaeth ffurfiol yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd. Maent yn cael eu trafod a'u rhannu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol hefyd er mwyn cael cymaint o gyfraniad â phosibl.

Dull corfforaethol o osod amcanion llesiant

- 75 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o osod ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy¹⁴. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- trefniadau priodol ar waith ar gyfer gosod amcanion llesiant a danategir gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy
 - ystyriaeth briodol a roddir i sut y bydd y sefydliad yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion llesiant
 - trefniadau priodol ar waith i fonitro cynnydd ac i wella'r modd y mae'r sefydliad yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- 76 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol priodol o osod amcanion llesiant. Fodd bynnag, mae angen eu halinio yn well â nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant partneriaid.**
- 77 Mae CTM 2030 yn nodi amcanion strategol hirdymor y Bwrdd Iechyd, sef ei amcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Lluniwyd yr amcanion strategol/llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac maent yn mynegi'n glir weledigaeth y Bwrdd Iechyd o fod yn sefydliad iechyd ar gyfer y boblogaeth ac yn 'sefydliad angor'¹⁵. Fe'u datblygwyd a chytunwyd arnynt gan y Bwrdd yn dilyn ymchwil fanwl i iechyd y boblogaeth ac anghydraddoldeb, ac

¹⁴ O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi eu cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant.

¹⁵ Sefydliadau mawr sy'n gysylltiedig â'u cymunedau lleol ac yn cael effaith sylweddol ar eu hiechyd a'u llesiant yw sefydliadau angor. Yn nodweddiadol, sefydliadau di-elw, sector cyhoeddus sy'n annhebygol o adleoli ydynt.

fe'u llywiwyd gan ymarferion clinigol a chymunedol helaeth. Rhoddwyd ystyriaeth briodol i bolisiâu cenedlaethol ehangach hefyd megis 'Cymru Iachach', Gofal Iechyd ar Sail Gwerth, a lleihau carbon yn unol â nodau sero net.

- 78 Mae'r amcanion strategol/llesiant yn drawsbynciol, yn canolbwyntio ar y dyfodol ac fe'u tanategir gan y pum ffordd o weithio. Er enghraifft, mae blaenoriaethau clir ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn tanategu'r amcanion strategol/llesiant sy'n canolbwyntio ar 'gynnal ein dyfodol' a 'chreu iechyd'. Fodd bynnag, er bod CTM 2030 yn dangos aliniad â'r 'pum ffordd o weithio', nid yw nodau strategol/llesiant y Bwrdd Iechyd wedi eu halinio â'r saith nod llesiant cenedlaethol nac amcanion llesiant ei bartneriaid. **(Argymhelliad 7, 2024)**
- 79 Ym mharagraffau **72 a 82**, rydym yn gwneud sylwadau ar gynnydd a threfniadau y Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro a goruchwyllo cyflawniad CTM 2030 yng nghydestun ei heriau a'i flaenoriaethau mwy uniongyrchol.

Dull corfforaethol o oruchwyllo'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau

- 80 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o oruchwyllo ac o graffu ar y broses o weithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfngedig¹⁶, targedau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo gwaith monitro ac adrodd
 - y Bwrdd yn monitro gweithrediad a chyflawniad cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- 81 Canfuom **er bod trefniadau ar waith i alluogi'r Bwrdd i oruchwyllo'r broses o weithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol, gellid cryfhau'r rhain ymhellach drwy ddatblygu mesurau canlyniadau clir ar gyfer ei strategaethau allweddol a gwella'r broses o adrodd ar effaith.**
- 82 Er bod y Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am agweddau ar gyflawni strategaeth fel mater o drefn, fod y broses o ddatblygu camau gweithredu a mesurau canlyniadau clir ar gyfer ei amcanion strategol lefel uchel yn parhau i fod ar y gweill. Mae angen cwblhau'r gwaith hwn ar frys er mwyn galluogi'r Bwrdd i ddeall y cynnydd a dangos yn glir y broses o gyflawni CTM 2030 (gweler **Atodiad 2 - 2022 Argymhelliad 4**).
- 83 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 wedi ei alinio'n briodol â CTM 2030 ac mae'n nodi'r modd y defnyddir grwpiau strategaeth y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r meysydd blaenoriaeth allweddol. Er bod gofynion cyflawni Cynllun Tymor

¹⁶ Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfngedig—defnyddir yr acronym SMART ar gyfer hyn yn y Saesneg.

Canolig Integredig 2024–27 yn glir ar gyfer blwyddyn 1 at ei gilydd, mae'r cerrig milltir a'r targedau ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 yn llai clir. Hefyd, nid yw'r Bwrdd lechyd wedi nodi'n ffurfiol gyfrifoldebau arweiniol y Cyfarwyddwr Gweithredol o ran cyflawniadau, a allai gyfyngu ar atebolrwydd priodol (gweler **Atodiad 2 - 2022 Argymhellion 5a a 5b**).

- 84 Cyflwynir adroddiadau cynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig chwarterol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn canolbwyntio ar gyflawni 'cynlluniau ar dudalen' y Grŵp Gofal a phum blaenoriaeth gweinidogol Llywodraeth Cymru. Mae adroddiadau clawr yn naratif eu natur ac yn pwysleisio cynnydd a heriau, ond fe'u cefnogir gan atodiadau manwl sy'n nodi camau gweithredu, a cherrig milltir i'w cyflawni. Er bod cyfeiriad at y Dangosfwrdd Perfformiad Integredig yn yr adroddiad, mae cyfle o hyd i gysylltu'n glir y cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau â pherfformiad y Bwrdd lechyd (gweler **Atodiad 2 - 2022 Argymhelliad 5c**). Mae angen hefyd i'r Bwrdd lechyd ddatblygu cyfres briodol o fesurau canlyniadau y boblogaeth er mwyn dangos effaith ei broses cyflawni strategaeth. (**Argymhelliad 8, 2024**)
- 85 Yn ystod y flwyddyn, roedd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael fel mater o drefn yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach megis Cynllunio Gweithlu Strategol a Rhaglen Gwaith Strategol lechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu. Er bod hyn yn darparu digon o wybodaeth i ddangos cynnydd, nid ydynt yn mynegi'n glir ymhle y mae'r cyflawniadau oddi ar y trywydd iawn, camau lliniaru nac amserlenni cyflawni diwygiedig. (**Argymhelliad 9, 2024**)

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

- 86 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol.
- 87 Canfuom fod **y trefniadau cynllunio, rheoli, monitro ac adrodd ariannol effeithiol at ei gilydd, ond bod pwyslais y sefydliad ar fynd i'r afael â'i heriau ariannol uniongyrchol yn cyflwyno risgiau i ddarparu atebion tymor hwy i gyflawni cynaliadwyedd ariannol.**

Amcanion ariannol

- 88 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei hamcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- y sefydliad yn cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2023–24, a'r cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2021–22 a 2023–24
 - y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2024–25.

- 89 Canfuom **er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei gyfanswm rheoli targed yn amcanion ariannol 2023–24, mae'n wynebu risgiau i gyflawni'r sefyllfa o fantoli'r cyfrifon a ragwelir ar gyfer 2024–25.**
- 90 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei amcanion ariannol ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf yn 2023–24, gyda chymorth ariannol ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru (yr oedd rhywfaint o hyn yn amodol ac yn rheolaidd ac roedd rhywfaint ohono yn achlysurol), a ddarparwyd i bob bwrdd iechyd yng Nghymru. Fodd bynnag, oherwydd diffyg o £24.5 miliwn yn 2022–23, ni chyflawnodd ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r cyfrifon hyd yn oed o'u cymharu â'i derfyn adnoddau refeniw dros gyfnod treigl o dair blynedd. Er hynny, mae sefyllfa ariannol 2023–24 y Bwrdd Iechyd yn gyflawniad arwyddocaol ac mae'n darparu hyder cynyddol yn ei reolaeth ariannol strategol. Mae'n debygol bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn wrth gymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 y Bwrdd Iechyd. Nodwn mai'r Bwrdd Iechyd oedd yr unig fwrdd iechyd yng Nghymru i gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig mantoledig ar gyfer 2024–27 a gymeradwywyd yn sgil hynny gan Lywodraeth Cymru.
- 91 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn yn 2024–25. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr wybodaeth ddiweddaraf am Gyllid Mis 6 2024–25 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ym mis Tachwedd 2024 ddiffyg o £3.3 miliwn yn ystod y flwyddyn hyd at y pwynt hwnnw a risg sylweddol y gallai'r rhagolwg waethygu yn y misoedd canlynol.

Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

- 92 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn sydd ar waith
 - y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau ariannol cyn eu cymeradwyo
 - arbedion cynaliadwy, realistig, ac sydd wedi eu costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi eu cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid y gwasanaeth
 - y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau gwellau costau ac arbedion cyn eu cymeradwyo.
- 93 Canfuom fod gan **y Bwrdd Iechyd ddull cynllunio ariannol effeithiol at ei gilydd yn y tymor byr i'r tymor canolig. Fodd bynnag, mae'r pwyslais ar gyflawni ei amcanion ariannol yn y tymor byr yn peri risgiau i fuddsoddiad tymor hwy mewn gwasanaethau cynaliadwy a modelau gofal.**
- 94 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith clir ar gyfer datblygu ei Gynllun Ariannol 2024–27. Â chefnogaeth Partneriaid Busnes Cyllid, cyflwynodd Grwpiau Gofal a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol asesiadau o'u sefyllfa ariannol sylfaenol a'u buddsoddiadau allweddol, eu pwysau costau, a'u cyfleoedd am arbedion. Craffodd Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyflwyniadau cychwynnol, a chynhaliodd y Tîm Cyllid

a Thîm y Prif Swyddog Gweithredu adolygiad ychwanegol. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Ariannol ym mis Mawrth 2024 yn rhan o'r broses o gymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27.

- 95 Mae uchelgais y Bwrdd lechyd o barhau i gyflawni sefyllfa ariannol mantoledig wedi arwain y Bwrdd i wneud penderfyniadau buddsoddi anodd. Er enghraifft, nid yw wedi gallu buddsoddi mewn Gwasanaethau Strôc, sy'n wynebu heriau perfformiad sylweddol. Fel y sonnir ym **mharagraff 72**, mae mynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol hefyd yn achosi oediadau i'r broses o ddatblygu'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol Aciwt, sy'n allweddol i greu modelau gofal mwy cynaliadwy. Er bod y Bwrdd lechyd wedi tynnu sylw at gyfleoedd posibl am dargedau arbedion is a lefelau uwch o fuddsoddiad dewisol yn ystod blynyddoedd 2 a 3 o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27, bydd angen iddo fonitro'n ofalus a rheoli unrhyw risgiau ansawdd, perfformiad, a chynaliadwyedd ariannol tymor hwy uniongyrchol a allai godi. (**Argymhelliad 10, 2024**)
- 96 Yn 2023–24, cyflawnodd y Bwrdd lechyd ei darged arbedion o £27.4 miliwn. Er gwaethaf hyn, canfu ein Hadolygiad o Drefniadau Arbed Cost 2024 fod angen i'r Bwrdd lechyd gychwyn dull sy'n cyfeirio'n fwy at y dyfodol yn awr drwy ganolbwyntio ar drawsnewid gwasanaethau er mwyn cynnal ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Ym mis 6, 2024–25, adroddodd y Bwrdd lechyd ei fod wedi cyflawni arbedion o £5.1 miliwn, sydd £8.3 miliwn yn is na'r targed yn ystod y flwyddyn hyd at y pwynt hwnnw o £13.2 miliwn. Creffir o hyd ar y perfformiad o'i gymharu â'r targedau arbedion yn y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid a'r Bwrdd.

Dull corfforaethol o reoli ariannol

- 97 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd lechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo
 - y Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad sy'n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll
 - trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall sbardunau cost a sut maent yn effeithio ar y broses o gyflawni amcanion strategol
 - datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2023–24 wedi eu cyflwyno'n brydlon, heb gynnwys camdatganiadau perthnasol, ac wedi cael barn archwilio glân.
- 98 Canfuom fod gan y **Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol o hyd at ei gilydd ar gyfer goruchwyllo a chraffu ar reolaeth ariannol.**

- 99 Mae gan y Bwrdd lechyd ddull effeithiol at ei gilydd o oruchwyllo a chraffu ar reolaeth ariannol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn parhau i gael adroddiadau caffael a chynllun dirprwyo o ansawdd da sy'n rhoi trosolwg o faterion caffael (gweler **paragraff 22**). Mae'r adroddiadau hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo a'r Gweithdrefnau Rheoli Ariannol. Noda'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Hydref 2024 fod sawl Gweithdrefn Rheoli Ariannol o hyd y mae eu dyddiad adolygu wedi mynd heibio, ac y byddant yn cael eu diweddarau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2024 (gweler **Atodiad 2 - 2022 Argymhelliad 7c**). Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol ar Gostau Asiantaeth Cyflog Amrywiol Meddygol a adroddwyd ym mis Medi 2024 sgôr sicrwydd rhesymol.
- 100 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau atal twyll da o hyd. Mae cynllun gwaith blynyddol y cytunwyd arno ac adroddiadau arferol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n dangos yr hyn a gyflawnir o'i gymharu â'r cynllun.
- 101 Mae gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth dda o hyd o'i sbardunau cost. Mae'r Cynllun Ariannol yn pwysleisio risgiau gan gynnwys pwysau gwasanaeth a galw, costau fferylliaeth, cynnydd yn y gweithgareddau a gomisiynir, buddsoddiadau lleol, gofal iechyd parhaus, twf mewn costau staffio, a Chronfa Risg Cymru. Hefyd, mae'n cydnabod yr heriau cyd-destunol ehangach sy'n wynebu'r sefydliad gan gynnwys oediadau yn y gadwyn gyflenwi, a phwysau chwyddiant. Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i gyflwyno llythyrau atebolrwydd i Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n nodi gofynion ar gyfer rheoli sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd.
- 102 Cyflwynodd y Bwrdd lechyd ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023–24 drafft o fewn yr amserlenni gofynnol. Gwnaethom gyhoeddi barn archwilio gwir a theg diamod, a barn rheoleiddiol amodol oherwydd na fodlonodd y Bwrdd lechyd ei ddyraniad adnoddau referiw yn ystod y cyfnod o dair blynedd.

Goruchwyliaeth gan y Bwrdd ar y perfformiad ariannol

- 103 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn goruchwyllo ac yn craffu ar y perfformiad ariannol yn briodol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:
- y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar y perfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol allweddol, risgiau, a chamau lliniaru
 - y Bwrdd yn craffu'n briodol ar asesiadau parhaus sefyllfa ariannol y sefydliad.
- 104 Canfuom fod **adroddiadau ariannol yn darparu digon o wybodaeth i alluogi gwaith craffu a her effeithiol a'u bod yn glir ynghylch effaith y camau a gymerwyd i wella'r sefyllfa ariannol.**
- 105 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol o hyd ar gyfer adrodd perfformiad ariannol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Mae'r adroddiadau cyllid wedi eu haddasu ar gyfer y ddau ac maent yn darparu digon o wybodaeth i alluogi gwaith craffu a her. Mae adroddiadau'n dal i dynnu sylw at risgiau ariannol allweddol a chyfleoedd posibl a allai effeithio ar y sefyllfa ariannol ac adlewyrchir

effaith camau lliniaru yn y sefyllfa a ragwelir. (Gweler **Atodiad 2—2022 Argymhelliad 8a**).

- 106 Canfu ein harsylwadau bod Aelodau Annibynnol yn craffu ac yn darparu her effeithiol ar berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd. Nodwn hefyd waith craffu a her ar faterion ariannol yn rhan o fusnes ehangach y Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, roedd y cyflwyniad sbotolau yng nghyfarfod y Pwyllgor Holi ac Ateb ym mis Medi 2024 yn cynnwys cwestiynau ynghylch cyllido'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Asesu ac Atal Cyflym¹⁷.

¹⁷ Darperir y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Asesu ac Atal Cyflym gan dîm sy'n cynnwys therapyddion galwedigaethol a gweithwyr proffesiynol eraill i asesu a thrin cleifion yn y gymuned, yn hytrach nag mewn ysbyty.

Atodiad 1

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 2** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

Elfen y dull archwilio	Disgrifiad
Arsylwadau	Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol: - Bwrdd Cyhoeddus - Pwyllgor Archwilio a Risg y Comisiynydd - Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Elfen y dull archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys: • Cylch Gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion • dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiant, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch • strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig • dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol • adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol • Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol • polisïau a gweithdrefnau perthnasol • adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrrff allanol perthnasol eraill.

Elfen y dull archwilio	Disgrifiad
Cyfweliadau	Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r Uwch-swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol: • Y Prif Swyddog Gweithredol • Cadeirydd y Bwrdd Iechyd • Is-gadeirydd y Bwrdd • Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Chynllunio, Perfformiad a Chyllid • Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch • Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifennydd y Bwrdd) • Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg • Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid • Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion • Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid • Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd

Atodiad 2

Y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol

Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythur blaenorol.

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
2018 Argymhelliad 6 Dylid ehangu'r traciwr argymhellion archwilio i gynnwys argymhellion asiantaethau allanol eraill ee, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Uned Gyflawni.	Cwblhawyd - gweler paragraff 66
2022 Argymhelliad 1 Canfuom gyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau llywodraethu gweinyddol, er mwyn gwella tryloywder cyhoeddus ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd, wneud yr hyn a ganlyn:	

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
a) cyhoeddi agendâu cyfarfodydd preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau b) cyhoeddi'r papurau ar gyfer holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd, y pwyllgorau, a chyfarfodydd chynghori ar ei wefan mewn modd amserol c) diweddarau taflenni clawr cyflwyniadau er mwyn galluogi awduron i grynhoi'r wybodaeth yn ddigonol a chipio'r risgiau a'r materion perthnasol.	Cwblhawyd - gweler paragraff 9 Ar y gweill - gweler paragraff 8 Dim cynnydd - gweler paragraff 12
2022 Argymhelliad 3 Mae gan y Bwrdd lechyd nifer o heriau perfformiad hirsefydlog ar draws llawer o feysydd mewn gofal a gynlluniwyd a gofal brys ac argyfwng, sy'n arwain ato'n cael ei uwchgyfeirio i fonitro gwell oddi wrth y trefniadau arferol o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd Llywodraeth Cymru. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd yn canolbwyntio'n briodol ar yr heriau allweddol y mae'n eu hwynebu mewn gofal a gynlluniwyd a gofal brys ac argyfwng, yn enwedig lle mae perfformiad yn y meysydd hynny'n gymharol waeth na Byrddau lechyd eraill yng Nghymru.	Cwblhawyd -gweler paragraff 55
2022 Argymhelliad 4 Er bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu gweledigaeth hirdymor, nodau strategol a blaenoriaethau strategol ar gyfer y sefydliad, nid oes gan y strategaeth newydd (CTM 2030) ganlyniadau clir a mesuradwy. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd geisio	Ar y gweill - gweler paragraff 82

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
mynegi canlyniadau ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, sut byddai llwyddiant yn edrych, a sut y bydd yn mesur ac yn adrodd ar gynnydd. Wrth wneud hynny, dylai ystyried y berthynas rhwng nodau Strategaeth Iechyd y Boblogaeth a'r nodau strategol ehangach a dull 'cwrw bywyd' iechyd y cyhoedd a nodir yn CTM 2030.	
2022 Argymhelliad 5 Canfuom gyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau ar gyfer monitro'r broses o gyflawni cynlluniau a strategaethau corfforaethol, a'r broses o adrodd i'r Bwrdd ar y cynnydd Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau drwy sicrhau: a) bod cynlluniau a strategaethau yn cynnwys crynodebau clir o'r camau gweithredu/cyflawniadau allweddol, amserlenni, a mesurau i gefnogi gwaith monitro ac adrodd effeithiol b) bod cynlluniau a strategaethau yn rhoi mwy o fanylion ynghylch pa Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n gyfrifol am gyflawni camau gweithredu/cyflawniadau allweddol er mwyn galluogi atebolrwydd priodol c) bod adroddiadau'n gyson ag adroddiadau perfformiad, er mwyn galluogi'r Bwrdd i asesu i ba raddau y mae rhoi camau gweithredu/cyflawniadau allweddol ar waith yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad y Bwrdd Iechyd.	Dim cynnydd - gweler paragraff 83 Dim cynnydd - gweler paragraff 83 Ar y gweill - gweler paragraff 84

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
2022 Argymhelliad 7 Er bod gweithdrefnau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd yn effeithiol at ei gilydd, gwnaethom nodi cyfleoedd i gryfhau rhai rheolaethau ac i ddiweddarau'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Bwrdd lechyd. Dylai'r Bwrdd lechyd: a) sicrhau bod gweithdrefnau rheoli ariannol sydd wedi dyddio yn cael eu tynnu oddi ar ei wefan a'u disodli gan y fersiynau cyfredol.	Ar y gweill - gweler paragraff 99
2022 Argymhelliad 8 Er bod gan y Bwrdd lechyd drefniadau effeithiol ar gyfer adrodd am berfformiad ariannol i'r Bwrdd, gwnaethom nodi cyfleoedd i wella'r adroddiadau hyn ymhellach. Dylai'r Bwrdd lechyd wneud yr hyn a ganlyn: a) rhoi mwy o sicrwydd bod camau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau ariannol allweddol a amlygir yn yr adroddiadau	Cwblhawyd - gweler paragraff 105
2022 Argymhelliad 9 Cyfyngedig yw'r capasiti yn y Bwrdd lechyd i gyflawni ei agenda trawsnewid digidol yn llawn. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd geisio nodi yn ei Strategaeth Ddigidol ar ei newydd wedd sut mae'n bwriadu goresgyn heriau staffio ac ariannu, er mwyn manteisio'n llawn ar yr hyn a gynigir gan dechnolegau ac atebion digidol.	Byddwn yn cynnal asesiad o gynnydd y Bwrdd lechyd o'i gymharu â'r argymhelliad hwn yn rhan o'n harchwiliad dwfn digidol yn 2025.

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
2022 Argymhelliad 10 Nid oes digon o oruchwyliaeth o gyflwr yr ystad a risgiau cysylltiedig sylweddol eraill ar lefel y Bwrdd ar hyn o bryd. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd, wneud yr hyn a ganlyn: a) sicrhau bod adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ar ddangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig ag ystadau a risgiau b) sefydlu proses glir i sicrhau bod materion ystadau a allai gael effaith iechyd a diogelwch sylweddol yn cael eu croesgyfeirio'n briodol gyda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.	Cwblhawyd - gweler paragraff 29 Cwblhawyd - gweler paragraff 28
2023 Argymhelliad 1 Er bod y Bwrdd lechyd yn cyfarfod yn gyhoeddus, nid yw'n glir sut y gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am gael bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn yn y cnawd. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd ddarparu canllawiau clir ar sut y gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am gael arsylwi cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn y cnawd.	Cwblhawyd - gweler paragraff 13
2023 Argymhelliad 2	Ar y gweill - gweler paragraff 15

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
Mae'r Bwrdd lechyd yn gwneud defnydd da o fideos i gyflwyno straeon cleifion a staff mewn cyfarfodydd pwyllgor. Fodd bynnag, nid ydynt ar gael yn sgil hynny ar wefan y Bwrdd lechyd. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod unrhyw fideos a ddangosir yn ystod cyfarfodydd pwyllgor ar gael ar ei wefan er mwyn cyflawnrwydd gyda chytundeb y cyfranwyr.	
2023 Argymhelliad 3 Mae cofnodion drafft cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu cynhyrchu'n sydyn a'u hadolygu gan y cadeirydd perthnasol; fodd bynnag, nid ydynt ar gael i'r cyhoedd nes bod papurau y cyfarfod dilynol yn cael eu cyhoeddi. Hefyd, nid yw cyfarfodydd pwyllgorau yn cael eu ffrydio'n fyw na'u recordio at ddefnydd cyhoeddus. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd ystyried rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar gofnodion cyfarfodydd pwyllgor mewn modd mwy amserol yn rhan o'i ymdrechion ehangach i wella tryloywder busnes y Bwrdd.	Dim cynnydd - gweler paragraff 17
2023 Argymhelliad 4 Er bod y Bwrdd a'r pwyllgorau'n adolygu ac yn cadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol, nid ydynt yn cael eu lanlwytho ar wefan y Bwrdd lechyd mewn modd amserol bob amser. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gofnodion a gadarnheir yn cael eu lanlwytho ar yr adran berthnasol o'i wefan mewn modd amserol er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad llawn at gofnodion cyfarfodydd a gymeradwywyd.	Ar y gweill - gweler paragraff 17

Argymhelliad	Disgrifiad o'r cynnydd
2023 Argymhelliad 5 Er bod gan y Bwrdd lechyd adran bwrpasol ar ei wefan ar gyfer polisïau a gweithdrefnau, mae rhai ohonynt wedi dyddio. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar ei wefan yn gyfredol ac, os nad ydynt, dylai roi cynllun clir ar waith i'w hadolygu a'u cymeradwyo.	Dim cynnydd - gweler paragraff 24
2023 Argymhelliad 6 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau priodol ar waith i reoli perfformiad gweithredol; fodd bynnag, nid oes ganddo fframwaith rheoli perfformiad a ddogfennir. Er mwyn gwella ei drefniadau ymhellach, dylai'r Bwrdd lechyd baratoi fframwaith ysgrifenedig sy'n nodi'n glir swyddogaethau, cyfrifoldebau, ac amllder ar gyfer adolygu perfformiad ar lefel gwasanaeth, rheolwyr, pwyllgorau a'r Bwrdd.	Dim cynnydd - gweler paragraff 54

Atodiad 3

Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

Arddangosyn 4: Ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i’n hargymhellion archwilio

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i’r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	Dylai’r Bwrdd Iechyd gryfhau’r trefniadau ar gyfer monitro, adolygu a diweddarau polisiâu y Bwrdd Iechyd ac adrodd ar y cynnydd yn rheolaidd i Bwyllgor perthnasol y Bwrdd.	Datblygwyd Dogfen Cychwyn Prosiect manwl ar gyfer adolygu proses Rheoli Polisi Anghlinigol. Amcanion y prosiect yw: 1. Sefydlu sefyllfa cydymffurfiaeth sylfaenol ar gyfer Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Anghlinigol	31 Rhagfyr 2025 Rhagwelir y bydd y rhaglen waith hon yn dechrau ym mis Ionawr 2025 ac yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn galendr.	Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd.

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		2. Sicrhau bod Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Anghlinigol wedi eu diffinio'n briodol hy, polisi, gweithdrefn, canllawiau ac ati. 3. Archwilio dull awtomataidd ar gyfer rheoli Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig er mwyn cefnogi gwaith monitro, adolygu awgrymiadau, rheoli fersiynau a storio dogfennau. 4. Adolygu'r tudalennau polisi ar y gwefannau mewnol ac allanol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd i ddefnyddwyr sy'n chwilio am ddogfennau. 5. Adolygu'r 'Polisi ar Bolisi'au' a datblygu dogfen symlach gyda mapiau prosesau clir. Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth Gweithredol yn monitro'r cynnydd ar y Prosiect.		

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		Ar ôl ei gwblhau, bydd hyn yn cynhyrchu gwaith monitro gwell drwy'r Pwyllgorau Bwrdd priodol.		
A2	Dylai'r Bwrdd lechyd gyflwyno trefniadau ar gyfer nodi a monitro camau sy'n deillio o'i straeon gwrando a dysgu.	Dylid nodi, monitro a chwblhau unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o straeon Gwrando a Dysgu a rennir yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau cyn i'r stori Gwrando a Dysgu gael ei chyflwyno, fodd bynnag, bydd y broses o fonitro unrhyw gamau gweithredu ar ôl cyflwyno straeon Gwrando a Dysgu yn y Bwrdd a'r Pwyllgor yn cael ei chyflwyno drwy'r grwpiau Ansawdd, Diogelwch, Risg a Phrofiad, Grwpiau Gofal a/neu'r fforwm Profiadau Cleifion. Mae'r broses lywodraethu ar gyfer unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o gyflwyno'r straeon hyn yn cael ei threfnu ar hyn	31 Mawrth 2025	Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion/Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		o bryd. Gan y bydd hwn yn drefniad diwygiedig newydd, ac yn ei ddyddiau cynnar y mae'r gwaith hwn, bydd adolygiad llawn o'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol yn cael ei gynnal er sicrwydd. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod straeon staff i hysbysu aelodau'r Bwrdd o Brofiadau Staff yn cael eu cynnwys yn y llyfrgell o straeon Gwrandio a Dysgu sy'n cael ei hadeiladu i'w rhannu'n ehangach, a bydd y gwaith hwn yn cael ei fonitro drwy'r Fforwm Profiadau Cleifion.		
A3	Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd drwy adrodd yn glir am effaith y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn	Er mwyn mynegi effaith camau gweithredu yn glir, bydd adran ychwanegol yn cael ei hychwanegu at gamau lliniaru Fframwaith	31 Mawrth 2025. Gan fod iteriad mis Ionawr eisoes yn y	Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd.

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	eu cymryd i liniaru ei risgiau strategol.	Sicrwydd y Bwrdd i gipio'r effaith yn glir.	broses o gael ei ddiweddarau, bydd hyn yn dod i rym ar gyfer iteriad mis Mawrth.	
A4	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei Ddangosfwrdd Perfformiad Integredig drwy fynegi'n glir a yw camau i wella tanberfformiad yn cyflawni eu heffaith arfaethedig.	Bydd naratif yr adroddiad perfformiad yn cael ei dynnu'n ôl er mwyn canolbwyntio ar gamau adfer a'u heffaith, ac yna yr wybodaeth ddiweddaraf am effaith.	31 Mawrth 2025	Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid
A5	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau ei adroddiadau ar y Ddyletswydd Ansawdd a Gonestrwydd drwy: A5.1 sicrhau bod adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn gliriach ynghylch yr heriau y mae'n ei brofi wrth ymgorffori'r gofynion	5.1 Bydd Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys manylion mewn cysylltiad â dulliau adrodd y bwrdd lechyd ac yn benodol byddant yn cynnwys naratif clir ynghylch yr heriau a brofwyd wrth ymgorffori'r gofynion.	31 Mai 2025 (er mwyn alinio â chyhoeddiad gofynnol yr Adroddiad Ansawdd a Diogelwch Blynyddol)	Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion/Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	A5.2 cynnwys cerrig milltir a thargedau priodol i helpu'r darllenydd i ddeall pryd mae'n bwriadu cyflawni blaenoriaethau.	5.2 Bydd cerrig milltir priodol yn cael eu cynnwys ar ôl cadarnhau'r targedau sydd eu hangen i helpu'r darllenydd i ddeall nod y blaenoriaethau.		
A6	Dylai'r Bwrdd lechyd wneud yr hyn a ganlyn: A6.1 sicrhau ei fod yn cwblhau ei waith yn sydyn er mwyn cryfhau'r traciwr argymhellion archwilio A6.2 cryfhau perchnogaeth ac atebolrwydd am gyflawni argymhellion archwilio.	R6.1 Bydd y broses ar gyfer diweddarau argymhellion archwilio yn trosglwyddo'n llawn i'r system awtomataidd, AMaT, erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Mae gwelliannau i'r system a gwelliannau adrodd awtomataidd yn dal i gael eu datblygu gan y Tîm Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiaeth ar y cyd â'r darparwr meddalwedd. Fodd bynnag, rhagwelir efallai na fydd y gweithgaredd hwn yn cael ei	31 Mawrth 2025 Oddeutu 31 Gorffennaf 2025, er y gallai'r dyddiad newid oherwydd cyd- ddibyniaeth â'r darparwr meddalwedd.	Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd.

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		gwblhau tan ddiwedd mis Gorffennaf 2025. Mae Llawlyfr Archwilio hefyd yn cael ei ddatblygu i gefnogi cydweithwyr gyda'u dealltwriaeth o'r broses archwilio a gwahanol gamau sy'n gofyn am gydymffurfiaeth. R6.2 Mae'r prosesau canlynol wedi eu gweithredu i gryfhau'r ymdeimlad o berchnogaeth ac atebolrwydd o ran argymhellion archwilio, er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli camau gweithredu yn rhagweithiol a'u cau: • Cyfarfodydd rheolaidd sydd wedi eu sefydlu gyda Rheolwyr Busnes i drafod y cynnydd o'i gymharu â chamau a argymhellir. • Mae'r perfformiad yn cael ei adrodd i'r Grŵp Arweinyddiaeth	28 Chwefror 2025 Cwblhawyd. Mae hyn bellach yn cael ei weithredu fel gweithgaredd busnes arferol, felly awgrymir bod yr argymhelliad hwn wedi ei gwblhau oherwydd y bydd yn weithrediad parhaus. Bydd gwelliant yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a thrwy	

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		Gweithredol o ran cydymffurfio ag amserlenni ar gyfer dychwelyd ymatebion rheolwyr a dyddiadau cwblhau camau gweithredu. - Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd yn adolygu'r traciwr archwilio ac yn cwrdd ag Arweinwyr Gweithredol i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn parhau i fod yn gyfredol ac yn gywir a byddant yn cysylltu â chydweithwyr archwilio pe byddai unrhyw her o ran parhau i fod yn berthnasol. - Mae'r Dangosfwrdd Llywodraethu Corfforaethol a dderbynnir yn y Grwpiau Arweinyddiaeth Gweithredol wythnosol yn cynnwys eitemau	adolygiadau Asesu Strwythuredig yn y dyfodol.	

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		penodol ar adolygiadau Archwilio er mwyn nodi pan fo unrhyw ymatebion rheolwyr wedi eu cyhoeddi ac mae'n nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder. Mae'r Dangosfwrdd Perfformiad yn cael ei gynnwys bellach yn adroddiad Tracio Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n nodi'r meysydd sy'n peri pryder a meysydd lle mae'r cynnydd yn gyfyngedig. Derbynnir yr adroddiad hwn hefyd yn y Grŵp Arweinyddiaeth Gweithredol.		
A7	Dylai'r Bwrdd lechyd nodi sut mae pob amcan llesiant unigol yn alinio ag amcanion llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant ei bartneriaid.	Mae'r amcanion llesiant wedi eu hymgorffori ar hyn o bryd drwy gydol strategaeth CTM 2030 fel themâu trawsbynciol ym mhob rhaglen. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y	Rhagfyr 2025	Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd y Cyhoedd

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
		byddai'n fuddiol nodi'r rhain yn glir ar wahân. Er mwyn dangos sut mae'r amcanion llesiant yn alinio ag amcanion cenedlaethol a rhai ein partneriaid, bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu ym mis Mawrth i ddatblygu'r gwaith hwn. Bydd adroddiad yn cael ei gynhyrchu sy'n nodi ein hamcanion llesiant a'n cynnydd o'i gymharu â nhw, y gallwn fonitro'r cynnydd yn flynyddol ag ef. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn allbwn ysgrifenedig a fydd yn caniatáu i randdeiliaid gael gafael ar wybodaeth gyfredol.		
A8	Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu ac adrodd am fesurau canlyniadau y	Yn rhan o'r gwaith sy'n cael ei oruchwyllo gan Fwrdd Rhaglen Creu	Gwnaed trefniadau i gynnal cyfarfod	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	boblogaeth er mwyn dangos effaith ei broses cyflawni strategaeth.	Iechyd, mae'r gwaith o ddatblygu dangosfwrdd data i fonitro ac adrodd am fesurau canlyniadau y boblogaeth ar y gweill. Er mwyn gwneud yr adroddiad hwn yn ystyrlon, fodd bynnag, bydd angen datblygu setiau data strategol a gweithredol gan ddefnyddio data o nifer o wahanol adnoddau mewnol ac allanol. Yn ogystal â hyn, mae BIPCTM yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu dangosfwrdd data gyda Data Cymru a chydweithrediad agos â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ar ôl ei ddatblygu, bydd yn darparu set ddata gyfredol ar draws y themâu llesiant gydag oddeutu 150 o ddangosyddion.	cychwynnol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a BIPCTM i drafod y dewisiadau ynghylch cael gafael ar y data sydd eu hangen ar 10 Ionawr 2025. Ar ôl hyn, gellir cynhyrchu amserlen ddrafft ar gyfer dewisiadau a datblygu system. Bydd yr amserlenni ar gyfer set ddata y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cadarnhau	

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A9	Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau strategaeth gorfforaethol y Bwrdd a'r pwyllgorau a'r broses o adrodd am gynllun drwy fynegi'n glir pan fo'r hyn a gyflawnir oddi ar y trywydd iawn, lliniaru camau gweithredu, a diwygio amserlenni cyflawni.	Mae tair elfen i CTM 2030: Datblygu Cymunedau Iachach—mae hwn yn adrodd i'r Pwyllgor Datblygu Strategol newydd a bydd gweithgareddau yn cael eu nodi'n glir gydag amserlenni ac allbynnau (mynegir llawer o ganlyniadau y gwaith hwn mewn degawdau) Gofal cymunedol a sylfaenol integredig—cynllun penodol a fydd yn adrodd i'r Pwyllgor Cyflawni Gweithredol gydag amserlenni clir a metrigau perfformiad. Cynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt—bydd manylion hyn yn cael eu datblygu dros y 18 mis nesaf drwy broses o ymgysylltu â'r cyhoedd yn systematig.	30 Ebrill 2025 30 Ebrill 2025 30 Medi 2026 Bydd hyn yn cymryd amser i'w ddatblygu, ac mae angen inni fod yn ymwybodol hefyd o etholiad y Senedd ym mis Mai 2026 a'r cyfnod sy'n	Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
			arwain at yr etholiad hwnnw.	
A10	Dylai'r Bwrdd lechyd wneud yr hyn a ganlyn: A10.1 monitro a rheoli unrhyw risgiau ansawdd a pherfformiad uniongyrchol a allai godi o ganlyniad i fuddsoddiad cyfyngedig neu ddim buddsoddiad mewn gwasanaethau wrth iddo geisio sicrhau cydbwysedd ariannol yn y tymor byr A10.2 datblygu cynllun ariannol hirdymor, y tu hwnt i'w Gynllun Tymor Canolig	Bydd y Tîm Llywodraethu Ansawdd yn adolygu'r Asesiad Effaith ar Ansawdd, gan ddysgu o'i ddefnydd diweddar yn yr ymateb i'r Digwyddiad Difrifol yn Ysbyty Tywysoges Cymru, er mwyn sicrhau bod unrhyw welliannau yn cael eu hystyried a bod Asesiadau Effaith ar Ansawdd yn cael eu cwblhau'n rheolaidd pan fo risg i ansawdd a pherfformiad pan effeithir ar fuddsoddiad mewn gwasanaethau. Ystyrir hefyd sut mae achosion o'r fath yn cael eu huwchgysfeirio drwy gamau priodol y Fframwaith Llywodraethu Ansawdd. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod yr angen i ddatblygu cynllun hirdymor, sydd wedi ei alinio â'n strategaeth	30 Mehefin 2025 30 Medi 2026 Ni ellir datblygu'r cynllun ariannol hirdymor ar	Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
	Integredig 2024–27, sydd wedi ei alinio â'i strategaeth sefydliadol er mwyn cyflawni cynaliadwyedd ariannol.	sefydliadol, ac a danategir gan fodel ariannol hirdymor.	wahân ac mae angen ei alinio'n briodol ag agweddau eraill	



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.